



# Dweud eich dweud- CHWARAE



Trosolwg o  
ganlyniadau'r arolwg  
ar-lein ar chwarae a  
chwaraeon ym Mro  
Morgannwg yn 2018.

*Arolwg wedi cwblhau gan plant a phobl ifanc.*



## Cynnwys ...

<b>1</b>	<b>Cefndir</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Methodology</b>	<b>2</b>
<b>3</b>	<b>Canlyniadau</b>	<b>3</b>
■	3.1 Bodlonrwydd gyda'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael	3
■	3.2 Beth sy'n dda am chwarae neu gymdeithasu yn y Fro	3
■	3.3 Beth sydd ddim yn dda am chwarae neu gymdeithasu yn y Fro	5
■	3.4 Faint o amser sydd i chwarae	8
■	3.5 Lle mae plant yn chwarae a pha mor dda yw'r manau lle maent yn chwarae	9
■	3.6 Teimlo'n ddiogel wrth chwarae a theithio i lefydd i chwarae	11
■	3.7 Caniatâd i chwarae ac amgyffrediad plant a phobl ifanc sy'n chwarae	14
■	3.8 Demograffeg yr ymatebwyr	15
<b>4</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>16</b>



# 1 Cefndir

Drwy nodi eu nod o 'greu Cymru sy'n creu cyfle i chwarae', mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd chwarae i blant a phobl ifanc. Er mwyn eu helpu i gyflawni'r nod hwn maent wedi gofyn i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill weithio tuag at y nod hwn hefyd.

Er mwyn hwyluso hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Daw hyn fel rhan o agenda atal tlodi Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod y gall plant wynebu tlodi o ran profiad, cyfle a dyhead, a bod y math hwn o dlodi yn gallu effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Cymru.

Er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd, cyflwynodd pob awdurdod lleol yng Nghymru eu Hasesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynllun Gweithredu Chwarae cyntaf i Weinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013, gyda Chynllun Asesu a Gweithredu dilynol yn cael ei gyflwyno yn 2016. Ym mis Mawrth 2019, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno eu trydydd Aseiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'n hanfodol bod plant yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae a bod eu barn yn cael ei defnyddio i helpu i lunio camau gweithredu yn y dyfodol. Felly mae cyfleoedd i ymgynghori wedi bod yn digwydd. Un dull ymgynghori o'r fath oedd y cyfle i blant gwblhau 'arolwg Chwarae Mawr y Fro 2018'. Mae'r rhain wedi cael eu cwblhau mewn fformat papur mewn digwyddiadau amrywiol, yn ogystal â thrwy arolwg ymgynghori ar-lein. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r canlyniadau a geir o'r arolwg ymgynghori ar-lein.

# 2 Methodoleg


Crëwyd 'Arolwg Chwarae Mawr y Fro' i alluogi plant i nodi lle maent yn hoffi chwarae, sut maent yn hoffi chwarae, beth yw eu barn am y cyfleoedd chwarae sydd ar gael, ac a oes unrhyw rwystrau iddynt chwarae fel yr hoffent.

Mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cynhaliwyd yr arolwg fel arolwg ar-lein a hyrwyddwyd drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, y Staffnet mewnol, drwy restr dosbarthu e-byst ymgynghori'r Cyngor a thrwy bartneriaid mewnol ac allanol gan gynnwys tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Ieuencid ac ysgolion. Cydnabuwyd, oherwydd problemau capasiti a'r ffaith eu bod eisoes yn ymwneud â nifer o arolygon eraill, na fyddai'r ysgolion o reidrwydd yn gallu hwyluso'r broses o gwblhau'r arolwg o fewn amser ysgol, felly gofynnwyd iddynt a fyddent yn gallu dosbarthu cysylltiadau'r arolwg i rieni.

Cafodd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg eu hargymell gan Chwarae Cymru. Defnyddiwyd y cwestiynau hyn hefyd gan lawer o awdurdodau lleol eraill felly bydd modd cynnal dadansoddiad ledled Cymru.

Yn y cyflwyniad i'r arolwg, dywedwyd wrth yr ymatebwyr: *"Drwy gwblhau'r holiadur isod byddwch yn ein helpu i greu darlun o sut mae hi ar gyfer plant sy'n chwarae ym Mro Morgannwg. Byddwn wedyn yn defnyddio'r wybodaeth i geisio darganfod ffyrdd o ddiogelu a gwella'r amser a'r gofod sydd gan blant i chwarae neu gymdeithasu."* Cydnabuwyd bod cyfyngiadau ar yr arolwg ar-lein, yn enwedig gan y byddai angen cymorth ar rai o'r plant iau i'w gwblhau. Pan oedd rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn arall a gynorthwyodd i gwblhau'r ffurflen, pwysleisiwyd mai'r plant oedd yn ceisio'r ymatebion, ac nid yr oedolyn.

Cwblhaodd cyfanswm o 302 o bobl yr arolwg ar-lein.




# 3

## Canlyniadau 3.1. Bodlonrwydd gyda'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael

Cafwyd adborth cadarnhaol o ran bodlonrwydd â'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Roedd 64% o blant a phobl ifanc yn teimlo bod y cyfleoedd i chwarae neu gymdeithasu ym Mro Morgannwg naill ai'n 'wych ac na allent fod yn llawer gwell' (21%), neu'n 'dda, ond gellid eu gwneud yn well' (43%). Roedd 25% yn teimlo eu bod ' yn iawn, ond mae angen eu gwneud yn well'. Fodd bynnag, teimlai 11% nad oedd y cyfleoedd yn dda, a bod angen eu gwella (6%) neu eu bod yn warthus ac angen eu gwneud yn llawer gwell' (5%).


Ar y cyfan, pa mor dda yw eich cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu?



## 3.2. Beth sy'n dda am chwarae neu ymlacio yn y Fro?

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn dda am chwarae neu gymdeithasu ym Mro Morgannwg, roedd 48% o'r atebion yn ymwneud â'r amgylchedd awyr agored gwych sydd gan y Fro, gan gynnwys argaeledd llawer o fannau gwyrdd/parciau lleol (28%), mannau agored (15%), morlin (4%) a'r awyr iach sydd ar gael (1%). Isod ceir rhai o'r sylwadau a wnaed yn ymwneud â'r amgylchedd awyr agored:

- 6 Mae gennym lawer o barciau a chaeau. Mae hyn yn gwneud i mi deimlo'n ddiogel ac maent yn anhygoel!
- 6 Awyr iach llwyth o le.
- 6 Cymysgedd dda o lyn, glaswellt, coetiroedd, pen clogwyn.
- 6 Mae cae yn dda gan ein bod yn gallu chwarae pêl-droed.


- 
- 6 *Rwy'n hoff iawn o'r parciau gyda fframiau dringo gan fy mod yn hoffi hongian wyneb i waered a gwneud gymnasteg. Rydym yn hoff o hela pryfed hefyd ym Mharc Victoria. Dwi wrth fy modd yn chwarae gyda fy ffrindiau ar y rampiau sglefrio ym Mharc Pencoedtre. Rwy'n gallu chwarae ar y stryd ar fy meic gyda'm cymydog.*
  - 6 *Llawer o le er mwyn i mi allu rhedeg. Mae'r siglenni'n hwyl. Siglenni rhaff ar yr afon. Dringo'r goeden.*
  - 6 *Mae rhai o'r meysydd chwarae yn newydd o amgylch Penarth - Mae Cliff Top yn dda iawn. Mae digon o fannau gwyrdd o'i gwmpas hefyd. Mae llefydd fel Cosmeston yn wych. Mae Alexander Park yn dda iawn ar gyfer chwarae, ond mae'r iard chwarae fach braidd yn gyfyngedig.*
  - 6 *Rwy'n hoffi caeau a'r coed.*

Tynnodd canlyniadau'r arolwg sylw at bwysigrwydd mannau awyr agored i blant, pobl ifanc a theuluoedd chwarae. Yn ogystal tynnodd sylw at yr ystod o leoedd awyr agored lle mae plant yn chwarae (gweler yr adran 'ble mae plant yn chwarae'. Dangosodd dadansoddiad pellach o'r canlyniadau fod y boddhad hwn yn amlwg yn dibynnu ar ble mae plant yn byw a'u gallu i gael mynediad i fannau awyr agored ar gyfer chwarae.


Tynnodd 13% o ymatebwyr sylw at y cyfle i chwarae â'u ffrindiau fel peth cadarnhaol am chwarae yn y Fro a rhywbeth a oedd yn bwysig iddyn nhw, fel y nodir gan y sylwadau isod. Derbyniwyd sylwadau negyddol gan y rhai nad oedd eu ffrindiau yn byw gerllaw neu nad oedd eu ffrindiau yn cael chwarae allan gyda nhw.

- 6 *Popeth, llawer o bethau i'w gwneud a llawer o bobl i chwarae â nhw.*
- 6 *Mae llawer o lefydd gwahanol i gymdeithasu â ffrindiau.*
- 6 *Gallaf fod gyda'm ffrindiau a mwynhau chwarae â nhw.*
- 6 *Rwyf i a'm ffrind yn mynd i'r parc sglefrio bob dydd Sadwrn. Rydym yn beicio neu'n cerdded yno. Mae'r parc sglefrio yn ardal agored ble rydym yn mynd i siarad neu i chwarae.*
- 6 *Mannau agored da gyda chyfleoedd i fwynhau amser rhydd gyda ffrindiau ac ardaloedd i wneud yn agos at yr hyn a fynnem.*
- 6 *Nid yw llawer o'm ffrindiau yn byw yn yr un ardal, ac nid oes llawer o glybiau ieuentid gerllaw ac eithrio'r cadéts.*

Roedd 'teimlo'n ddiogel' wrth chwarae yn ffactor arall roedd plant a phobl ifanc yn ei hoffi am chwarae a chymdeithasu yn y Fro. Caiff hyn ei adolygu'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn yr adran 'Teimlo'n Ddiogel wrth Chwarae'.



**Beth sy'n dda am eich ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu?**




### 3.3. Beth sydd ddim yn dda am chwarae neu gymdeithasu yn y Fro?

Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am y parciau lleol sydd ar gael fel y nodwyd uchod. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt beth nad oedd yn dda am eu hardal i chwarae neu gymdeithasu, y prif ymateb oedd ansawdd y cyfleusterau chwarae a pharcio a oedd ar gael. Roedd yr ymatebion a roddwyd mewn perthynas â pharciau yn wahanol yn seiliedig ar yr ardal lle roedd y plentyn yn byw e.e. a oedd mewn ardal lle roedd parc a adnewyddwyd yn ddiweddar a'r math o gyfarpar a oedd ar gael. Tynnwyd sylw at hen gyfarpar wedi dyddio fel pryder, yn ogystal â'r ystod o gyfleoedd chwarae / offer a oedd ar gael.

Cwblhaodd nifer uchel o bobl ifanc 12 oed a hŷn yr arolwg hwn, gan nodi mai ychydig o offer sydd ar gael i blant hŷn a phobl ifanc mewn parciau, gyda'r cyfarpar wedi'i anelu at blant iau. Byddent yn hoffi gweld parciau gyda mwy o gyfleoedd iddynt chwarae / cymdeithasu wrth iddynt dyfu'n hŷn gyda chyfarpar fel gwifrau zip, mannau chwarae antur a strwythurau dringo mwy. Tynnwyd sylw at y mater hwn hefyd gan adborth rhiant, gyda'r rhiant yn nodi bod yn rhaid iddi ymweld â gwahanol barciau er mwyn darparu ar gyfer y gwahanol ystodau oedran yn ei theulu gan nad yw un parc yn addas i'w holl anghenion. Nododd y bobl ifanc hefyd fod y parciau'n cau'n gynnar, felly nid oes llawer o lefydd iddynt fynd gyda'r nos i chwarae a chymdeithasu lle maent yn teimlo'n ddiogel.

Gofynnodd ymatebydd i'r arolwg a oedd â phlentyn ag anabledd y dylid bod yn fwy gofalus wrth ddylunio mannau chwarae i sicrhau bod anghenion plant anabl yn cael eu hystyried ac i sicrhau bod y man chwarae a'r cyfarpar yn



hygyrch. Gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd cynnal y llwybrau i'r parciau ac o'u hamgylch er mwyn ei wneud yn hygyrch i gadeiriau olwyn (a hefyd i'r rhai â phramiau). Cafwyd awgrymiadau hefyd bod gwahanol arwynebau'n cael eu defnyddio i alluogi pobl i chwarae a chael mynediad i'r cyfleusterau beth bynnag fo'r tywydd. Yn ogystal â'r sylwadau a nodwyd uchod, mae adborth arall sy'n ymwneud â pharciau yn cynnwys:

- 6 *Angen mwy o le chwarae agored. Mae rhai parciau angen cael eu hadnewyddu Mae rhai parciau ar gyfer plant hŷn, tra bo rhai'n rhy fabiaidd. Eisiau rhywle diogel i feicio. Does unman i chwarae gyda dŵr.*
- 6 *Mae gen i'r traeth a pharc Maslin gerllaw. Mae gen i lawer o ffrindiau hefyd ac rydyn ni'n mynd i dai ein gilydd. Ynys antur a chnau coco os yw'r tywydd yn wael. Parc Romilly a Porthceri yw fy hoff lefydd gan fy mod yn gallu mynd â'm ci i chwarae hefyd.*
- 6 *Rwyf eisiau parc sydd â dŵr a thywod fel y tu allan.*
- 6 *Mae llawer i blant ifanc, parciau, siglenni, canolfannau chwarae, ond does dim byd i rai yn eu harddegau. Gan fy mod yn 14 nid wyf eisiau chwarae ar sleid neu fynd i Jungle Jack's byddwn i'n hoffi cael cyrsiau rhaffau uchel neu barc plant hŷn.*
- 6 *Rydym yn mynd i barc bach rhwng y tai i chwarae pêl-droed, mae hynny'n well na chwarae pêl-droed yn ein gardd.*
- 6 *Mae'r lle chwarae yn hen a gwael ac wedi'i wneud ar gyfer plant 1 i 5 mlwydd oed, dim byd ar gyfer plant hŷn. Does dim cwrt tenis nac unrhyw gwrt pêl-fasged, dim i fynd i gwrdd â ffrindiau. Mae'n rhaid i ni fynd mewn car i fynd i rywle da sy'n drist.*
- 6 *Nid oes gennym unrhyw bethau chwarae i ddringo arnynt.*
- 6 *Rwy'n mynd i'r stryd, nid oes coed i'w dringo na pharc i fynd iddo'n yn ddiogel heb famau a thadau. Y parciau da mae'n rhaid i ni fynd yn y car i'w cyrraedd ac nid wyf yn cael chwarae gyda'm ffrindiau gan nad ydyn nhw'n mynd yno.*
- 6 *Nid oes llawer o ardaloedd ar gyfer plant hŷn, mae'r parciau sglefrio a pharciau i gyd yn sylfaenol. Dim ardal i chwarae pêl-droed mewn mannau chwarae. Hefyd diffyg cynlluniau chwarae/ gweithgareddau i'w gwneud yn y Rhws yn ystod gwyliau ysgol.*
- 6 *Mae llawer o sbwriel ar y llawr a gwydr.*
- 6 *Mae baw ci.*
- 6 *Mae parciau'n warthus yn Llanilltud Fawr. Mae angen diweddarau cyfarpar- mae angen i ardaloedd fod yn addas ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (Mae'n rhaid i mi ymweld â dau faes chwarae gan nad yw'r lle'n briodol ar gyfer fy mhlant 4 ac 8 mlwydd oed gyda'i gilydd. Cae pêl-droed mewn un parc – rygbi mewn un arall, y ddau'n llawn baw ci. Dim lle i reidio beiciau oddi ar y ffordd yn ddiogel. Teithio i'r Barri ar gyfer eu parciau - pam eu bod nhw wedi cael pob buddsoddiad yn eu hardaloedd agored nhw?!?!? (Sylw a wnaed gan riant).*



Mae'n ymddangos bod y sylw a wnaed uchod gan y rhiant, a sylwadau eraill a wnaed ar gyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar, yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth o sut mae'r gwaith o adnewyddu parciau'n cael ei ariannu ym Mro Morgannwg. Sicrhawyd swm mawr o arian drwy gyllid A106 i uwchraddio parciau, sydd wedi bod yn fuddiol yn yr ardaloedd lle mae'r arian hwn ar gael. Fodd bynnag, mae hyn wedi achosi rhai sylwadau negyddol gan drigolion mewn rhannau eraill o'r Fro lle nad yw cyllid A106 wedi bod ar gael i uwchraddio cyfleusterau parciau a chwarae.

Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch diogelwch neu ddiffyg diogelwch canfyddedig sy'n atal plant rhag chwarae tu allan. Edrychir ar y rhain ymhellach yn y ddogfen hon yn yr adran 'Teimlo'n Ddiogel wrth Chwarae'. Mae meysydd eraill a nodir fel rhai nad ydynt yn dda am chwarae yn y Fro yn cynnwys:

- ffyrdd prysur/traffig cyflym – traffig ar strydoedd lle yr hoffent chwarae; ceir yn gyrru'n rhy gyflym yn y strydoedd lle maent yn chwarae; yr angen am fwy o leoedd diogel i groesi i gyrraedd y man lle maent eisiau chwarae; mewn ardaloedd lle nad oes llawer o draffig, pan mae ceir yno, maent yn teithio'n gyflym.
- diffyg pethau i'w gwneud dan do pan fydd hi'n glawio, a chost gweithgareddau dan do.
- byddai pobl ifanc yn hoffi cael rhagor o leoedd i gymdeithasu, lleoedd lle y cydnabyddir y gallent gymdeithasu ac na fyddent yn cael eu barnu gan eraill pan fyddant yn cymdeithasu.
- sbwriel.
- baw ci.
- Mae diffyg cyfleoedd yn agos i ble mae plant yn byw – byddai mynediad i lonydd cefn, mannau glaswellt ac ati i chwarae yn fuddiol.


Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sylwadau sy'n adlewyrchu'r meysydd a nodwyd uchod:

- 6 *Does unman i fynd os nad yw'n bwrw, dim cysgod.*
- 6 *Llawer o ffyrdd felly mae'n beryglus.*
- 6 *Gormod o lwyni.*
- 6 *Mae popeth yn daith gerdded hir i mi. Nid oes yr un parc, cae pêl-droed neu gael chwarae'n agos i fy nhŷ. Ni allaf chwarae pêl-droed ar y man glaswellt ger fy nhŷ gan ei fod yn llawn baw ci.*

- 6 Nid oes llawer o ardaloedd na phethau cyffrous i bobl ifanc yn eu harddegau eu gwneud ar wahân i sgwrsio ar feinciau. Os nad ydych yn cael mynd yn bell neu'n gorfod teithio, nid oes unman i fynd.
- 6 Efallai, faint o sbwriel sydd, mae nifer fach o bobl oedrannus nad ydynt yn hoffi plant oherwydd ein bod yn 'rhy swnllyd' neu 'ddim yn gwerthfawrogi ein hamgylchoedd' neu am 'nad ydym yn gwisgo'r hyn yr hoffent i ni ei wisgo' er, yn fy ngrŵp ffrindiau i, rydym yn ceisio ein gorau i fod yn barchus at bawb o'n cwmpas a pheidio gwneud gormod o sŵn.
- 6 Ffyrdd eithaf prysur, dim llawer o fannau diogel i groesi.

Mae rhai o'r sylwadau uchod, yn enwedig ynghylch diffyg mannau agored a chyfleusterau yn groes i'r sylwadau a wnaed yn yr adran 'beth sy'n dda am chwarae / cymdeithasu yn y Fro'. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau ymhellach mae'n amlwg bod yr ardal y mae plentyn yn byw ynddi yn cael effaith fawr ar p'un a oes ganddo fynediad at brofiad chwarae cadarnhaol oherwydd argaeledd pethau megis mannau agored, parciau lleol a pha mor agos mae eu ffrindiau'n byw.

**Beth sydd ddim yn dda am eich ardal ar gyfer chwarae a chymdeithasu?**




### 3.4. Faint o amser sydd i chwarae


Roedd canlyniadau'r arolwg yn eithaf cadarnhaol o ran faint o amser y mae plant yn y Fro yn ei gael ar gyfer chwarae. Roedd 68% o'r ymatebwyr o'r farn bod ganddynt 'lwyth' neu 'ddigon' o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau, fodd bynnag roedd 28% o'r farn y byddent yn hoffi cael 'ychydig mwy' o amser. Roedd 4% yn teimlo bod angen llawer mwy o amser arnynt i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau.

Roedd 32% o bobl ifanc oedran ysgol uwchradd yn teimlo y byddent yn hoffi cael 'ychydig mwy' neu 'lawer mwy' o amser i chwarae neu gymdeithasu, tra bod 30% o ddisgyblion cynradd a ymatebodd yn teimlo'r un fath.

Ydych chi'n cael digon o amser ar gyfer chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau?



Pa mor aml ydych chi'n mynd allan i chwarae neu i gymdeithasu gyda ffrindiau?



■ Ydw, digon ■ Nac ydw, hoffwn gael rhywfaint mwy ■ Ydw, rwy'n cael llawer o amser ■ Nac ydw, mae angen llawer mwy amaf ■ Ychydig o ddyddiau'r wythnos ■ Y rhan fwyaf o ddyddiau ■ Bron byth ■ Nid wyf yn chwarae nac yn cymdeithasu â'm ffrindiau tu allan

Roedd 30% o ymatebwyr yn mynd allan i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau ar ran fwyaf o ddiwrnodau'r wythnos, gyda'r mwyafrif (41%) yn gallu chwarae tu allan ychydig o ddyddiau bob wythnos. Yn anffodus, nododd 22% mai prin yr oeddent yn chwarae y tu allan gyda ffrindiau, a dywedodd 7% nad oeddent yn chwarae yn yr awyr agored o gwbl gyda ffrindiau.

### 3.5. Lle mae plant yn chwarae a pha mor dda yw'r manau lle maent yn chwarae


Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc ble'r oeddent yn chwarae neu'n cymdeithasu pan nad oeddent yn yr ysgol. Nodwyd 31 o leoedd gwahanol gan yr ymatebwyr ac roeddent yn cynnwys manau awyr agored fel bryniau â glaswellt, parciau, canol tref lleol, strydoedd lleol, iard frics, caeau rygbi, parciau, traethau, lonydd cefn, cyrtiau chwaraeon a thai coed. Roedd y manau dan do yn cynnwys eu tŷ eu hunain, tŷ aelod o'r teulu, sinema, canolfan sglefrio, lleoliadau mewn clybiau chwaraeon lleol, grwpiau lleol megis grwpiau theatr a grwpiau mewn lifrai megis sefydliadau'r Sgowtiaid a'r Geidiau.

Roeddent yn cael cyfle i nodi'r holl leoedd yr oeddent yn chwarae ynddynt ac nid oeddent wedi'u cyfyngu i'w prif fan chwarae yn unig. Nododd 84% o'r ymatebwyr eu tŷ neu dŷ eu ffrindiau fel man lle maent yn chwarae. Nododd 49% ohonynt eu gardd neu ardd eu ffrindiau fel y lleoliad nesaf a ddefnyddir fwyaf. Dim ond 8% a nododd eu bod yn mynychu clwb ieuenctid neu safle chwarae antur / cynllun chwarae. Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â lefel isel

y ddarpariaeth o gynlluniau chwarae a chlybiau ieuenctid sydd ar gael ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg.


Nododd 11 o blant nad oeddent yn chwarae yn yr awyr agored. O'r rhain, dim ond 3 a nododd eu bod yn gallu chwarae ym mhob un o'r lleoedd a hoffent, gan awgrymu y byddai'r 8 arall yn hoffi chwarae yn yr awyr agored pe baent yn cael y cyfle. Nododd 1 o'r ymatebwyr hyn nad oeddent yn gallu chwarae yn yr awyr agored gan nad oedd y manau chwarae a chyfleusterau hamdden wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion eu hanabledd a'u bod yn ei chael yn anodd cerdded ar hyd y llwybrau cerdded i ardaloedd. Roedd rhesymau eraill dros beidio â chwarae yn yr awyr agored yn cynnwys manau chwarae yn anaddas i grwpiau oedran hŷn ac wedi'u targedu'n fwy at blant bach, dim byd i'w wneud yn eu pentref a gormod o geir yn gyrru'n rhy gyflym iddynt deimlo'n ddiogel yn yr awyr agored.

#### Pan nad ydych yn yr ysgol, ym mha fath o lefyd ydych hi'n chwarae neu'n cymdeithasu?




Nododd 44% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu chwarae ym mhob un o'r lleoedd yr hoffent chwarae ynddynt, tra dywedodd 36% y gallent mewn rhai o'r manau yr hoffent chwarae ynddynt. Nododd 16% eu bod ond yn gallu chwarae mewn rhai manau yr hoffent chwarae ynddynt, a nododd 4% nad oeddent yn chwarae fawr o gwbl yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffent chwarae ynddynt.

**A ydych chi'n gallu chwarae yn yr holl lefydd yr hoffech chwarae ynddynt?**



Mae 86% o blant wedi graddio'r llefydd lle maen nhw'n chwarae fel 'lawn – Gallaf wneud rhai o'r pethau dwi'n hoffi (50%)' neu 'gwyb – rwy'n gallu gwneud yr holl bethau rwyf yn eu hoffi (36%)'. Mae 9% o blant o'r farn nad yw'r lleoedd yn dda, gan ddweud na allant wneud llawer o'r pethau yr hoffent eu gwneud, tra bod 5% yn meddwl eu bod yn warthus ac na allant wneud unrhyw un o'r pethau yr hoffent eu gwneud.

**Pa mor dda yw'r llefydd yr ydych yn chwarae ynddynt?**




**3.6. Teimlo'n ddiogel wrth chwarae a theithio i lefydd i chwarae**

Yn aml mae amgyffrediad o bryder o ran diogelwch gyda phlant yn chwarae yn yr awyr agored, yn enwedig wrth chwarae allan heb oedolyn yn bresennol. Mae llawer o oedolion yn poeni am 'berygl dieithriaid' a'r ffyrdd prysur a'r traffig a wynebwr wrth deithio i fannau chwarae. Yn aml, gall hyn amharu ar allu plentyn i fanteisio ar gyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, amlygodd yr arolwg fod 81% o'r

ymatebwyr yn cael chwarae ar eu liwt eu hunain, tra dywedodd 19% na allent wneud hynny. Amlygodd yr arolwg hefyd mai dim ond 4% o blant sydd byth yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae neu gymdeithasu. Nododd 58% eu bod fel arfer yn teimlo'n ddiogel, a 34% eu bod bob amser yn teimlo'n ddiogel.

#### Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo wrth chwarae neu gymdeithasu?




O'r rhai a wnaeth sylwadau am bryderon diogelwch, roedd y rhain yn cynnwys meysydd fel traffig prysur, oedolion dieithr yn y mannau y maent eisiau chwarae ynddynt ac ymddygiad amhriodol gan eraill mewn ardaloedd lle mae plant am chwarae, fel yfed, ysmegu, cymryd cyffuriau a rhegi (gan oedolion a phlant/pobl ifanc). Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- 6 *Llawer o bobl ifanc yn eu harddegau hŷn mewn gangiau yn y parc, yn yfed, ysmegu ac yn rhegi felly mae fy mam yn gwneud i mi fynd yn ôl i mewn gan fy mod wedi cael fy mrifo ddwywaith.*
- 6 *Sbwriel, iaith anwedus, plant hŷn yn ysmegu cannabis a'i arogl o gwmpas y Barri yn gyffredinol*
- 6 *Nid yw rhai lleoedd wedi eu goleuo'n dda iawn pan fydd yn tywyllu..*
- 6 *Mae rhieni'n teimlo nad ydyw'n ddiogel i blant grwydro tu allan ar eu pen eu hunain.*
- 6 *Mae'r plant yn ysmegu ac rwy'n credu eu bod yn cymryd cyffuriau neu'n yfed ac yn rhegi. Mae'n gwneud i mi deimlo nad ydw i'n ddiogel ac ni allaf ei fwynhau. Nid wyf yn mynd allan gyda'm ffrindiau o'u herwydd. Os wyf yn mynd allan, fel arfer rwyf gyda'm rhieni. Yn aml mae gwydr wedi torri, sbwriel, stympiau sigarêts yn y parc sglefrio. Heblaw am y parc sglefrio a'r parc pêl-droed nid oes llawer i blant o'm hoedran i i'w wneud. Mae Clwb leuenctid, ond bydden i byth yn mynd yno gan nad wyf yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni plant o'm hoedran i sy'n rhegi ac yn ysmegu. Hoffem deimlo'n fwy diogel pan wyf allan. Rwy'n meddwl y bydden i'n hoffi'r syniad o fwy o chwaraeon yn yr ardal, a mwy o weithgareddau i blant fy oedran i.*
- 6 *Mae llawer o sbwriel ac mae'n bosib y bydd pobl sy'n codi ofn arnom o gwmpas.*

- 6 *Fi a fy mrawd bach yw'r unig rai sy'n cael chwarae tu allan ar ein pennau ein hunain. Mae pob un o'm ffrindiau angen oedolyn i fynd gyda nhw, does neb yn chwarae allan ar y strydoedd. Nid oes cae pêl-droed na maes chwarae dymunol y gallwn fynd iddo. Mae'r cae chwarae (Golden Gate Park, Wordsworth Avenue) yn y parc lle gellir mynd i chwarae pêl-droed yn warthus, mae'n hen iawn ac ôl traul arno. Defnyddir y Parc gan amlaf gan bobl yn mynd â'u cŵn am dro (a ddim yn glanhau wedyn). Weithiau byddwn yn mynd i Barc Victoria ar ôl ysgol, ond dim ond am hanner awr y mae'r rhan fwyaf o blant yn cael chwarae yno ac yna mae'n rhaid iddynt fynd adref gyda'u rhieni, felly nid yw'n llawer o hwyl i ni aros yno.*
- 6 *Rwy'n teimlo y dylai ceir a cherbydau eraill sy'n gyrru o amgylch yr ardal fod yn ymwybodol bod plant ifanc yn aml yn chwarae ar y ffyrdd (gan nad oes llawer o geir yn pasio drwodd), mae llawer o yrwyr yn gyrru drwy'r ardal heb edrych am rwystrau.*
- 6 *Ffyrdd eithaf prysur, dim llawer o fannau diogel i groesi.*
- 6 *Mae'r Parc yn agos at dafarn ac weithiau mae pobl yn yfed yn y parc, felly rydyn ni'n gadael. Weithiau mae pobl od o gwmpas felly os ydyn ni'n teimlo'n anniogel rydyn ni'n rhedeg adref.*

Wrth ystyried sut maent fel arfer yn teithio i'r man lle maent yn chwarae, mae 57% yn cerdded neu'n beicio naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau heb oedolyn. Mae 41% yn teithio gydag oedolyn naill ai yn y car (25%), neu'n cerdded, beicio neu fynd ar gefn sgwteri (16%) tra bod 2% yn mynd ar fws. Wrth gymharu'r uchod yn erbyn sut mae plant yn teithio i'r ysgol, mae nifer tebyg yn cerdded neu'n beicio gyda ffrindiau (30%) ac yn teithio mewn car gydag oedolion (25%). Fodd bynnag, mae llai o blant yn cerdded neu'n beicio ar eu pen eu hunain i'r ysgol o'u cymharu â'u lle chwarae (21%), tra bod mwy o blant yn teithio i'r ysgol ar fws (13%) na cherdded, reidio neu fynd ar sgwteri gyda'u rhieni (16%). Mae llawer o'r bobl ifanc a ymatebodd yn gallu teithio ar eu liwt eu hunain, ond byddent yn hoffi gweld trafndiaeth ratach / am ddim a gwell trafndiaeth gyhoeddus i gynorthwyo gyda hyn. Maent hefyd wedi awgrymu y byddai amserlenni ym mhob safle bws yn ddefnyddiol fel y gallant gynllunio pryd y gallant deithio yn ôl ac ymlaen o'u man chwarae / cymdeithasu.

**Sut ydych chi fel arfer yn teithio i lefydd yr ydych yn chwarae ynddynt?**




### 3.7. Caniatâd i chwarae ac amgyffrediad plant a phobl ifanc sy'n chwarae

Nododd llawer o'r plant a'r bobl ifanc eu bod yn cael chwarae / cymdeithasu, a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny gan eu rhieni. Pan oeddent yn gwneud, nododd 34% fod 'y rhan fwyaf o oedolion yn wych ac yn hapus gyda phlant yn chwarae tu allan', a dywedodd 45% fod y rhan fwyaf o oedolion yn fodlon gyda phlant yn chwarae tu allan. Fodd bynnag, mae rhai o'r ymatebwyr, yn enwedig y rhai yn y dosbarth oedran hŷn, yn cael rhywfaint o adborth negyddol pan fyddant yn chwarae neu'n cymdeithasu â'u ffrindiau. Nododd 18% fod 'rhaid oedolion yn flin a ddim yn hoffi gweld plant yn chwarae tu allan' a dywedodd 3% fod 'y rhan fwyaf o oedolion yn flin ac yn casáu plant yn chwarae tu allan'. Isod ceir rhai sylwadau a roddwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r profiad hwn:

- 6 Mae nifer fach o bobl oedranus nad ydynt yn hoffi plant oherwydd ein bod yn 'rhy swnllyd' neu 'ddim yn gwerthfawrogi ein hamgylchoedd' neu am 'nad ydym yn gwisgo'r hyn yr hoffent i ni ei wisgo' er, yn fy ngrŵp ffrindiau i, rydym yn ceisio ein gorau i fod yn barchus at bawb o'n cwmpas a pheidio gwneud gormod o sŵn.
- 6 Mae gan y man gwyrdd ger Cosmeston arwydd sy'n dweud 'dim pêl-droed, sglefrfyrdio a beicio yn yr ardal hon' ac roeddwn i a'm ffrindiau yn arfer chwarae yno'n aml.
- 6 Oedolion ddim yn hapus.
- 6 Weithiau, rwy'n teimlo bod oedolion yn fy meirniadu pan wyf yn mynd allan mewn grŵp mawr o ffrindiau, rwy'n meddwl eu bod yn teimlo'n anghyfforddus o amgylch criw mawr ohonom, rydyn ni'n codi ofn arnynt efallai.
- 6 Mae llawer o ardaloedd yn agos iawn at dai gerllaw sy'n golygu bod cwynion am sŵn yn broblem fawr.
- 6 Mae rhai pobl nad ydyn nhw'n hapus gyda ni'n cymdeithasu ar y strydoedd.

Sut agwedd sydd gan oedolion pan ydych yn chwarae neu'n cymdeithasu?





### 3.8. Demograffeg yr ymatebwyr


Roedd 298 o'r ymatebwyr yn 3 - 18 oed, tra bod 4 yn 19 oed a hŷn. Roedd 216 yn 12 a hŷn, gyda dim ond 84 yn 11 oed ac iau. Roedd 46% o'r ymatebwyr yn yr ysgol gynradd ac roedd 54% o'r ymatebwyr yn yr ysgol uwchradd. Mae'r diffiniad o 'chwarae' yn amlwg yn wahanol i bob unigolyn. Mae'r gwahaniaethau hyn hyd yn oed yn fwy amlwg rhwng gwahanol grwpiau oedran felly mae'n bwysig ystyried oedranau'r rhai a gwblhaodd yr arolwg wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa iaith yr oedd yn well ganddynt ei siarad. Nododd 94% fod yn well ganddynt siarad Saesneg, 3% Cymraeg a nododd 3% ieithoedd eraill gan gynnwys Cantoneg (1 person), Xhosa (1), Wgandeg (1), Ffrangeg (2), Maori (1), Mongoleg (1) a'r System Gyfathrebu Cyfnewid Darluniau (1). Nododd 1 person ei fod yn ddwyieithog, a'i fod yn hoffi siarad yn y ddwy iaith.

Nododd 6.1% o'r ymatebwyr fod ganddynt anabledd.

Un ffactor y bydd angen ei ystyried wrth ystyried y canlyniadau yw'r ardal y mae'r ymatebwyr yn byw ynddo. Gall nifer o ffactorau effeithio ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant, gan gynnwys yr ardal y maent yn byw ynddi, boed honno'n ardal wledig neu mewn tref, eu hagosrwydd at barciau, mannau agored, traethau, coetiroedd ac ati. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw ym Mhenarth (55%) felly gallai'r ymatebion a roddwyd adlewyrchu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn yr ardal honno ac felly gallant effeithio ar y canlyniadau.

**Beth yw eich cod post gartref? (Neu ym mha ardal ydych chi'n byw?)**



# 4

## Crynodeb

Mae'r arolwg wedi rhoi adborth defnyddiol gan y plant a'r bobl ifanc am eu profiad o gyfleoedd chwarae ym Mro Morgannwg a'u mynediad iddynt. Nododd yr arolwg y canlynol:

- Byddai 64% yn disgrifio eu cyfleoedd i chwarae yn wych neu'n dda.
- Mae 71% yn mynd allan i chwarae neu gymdeithasu o leiaf rhywfaint o weithiau'r wythnos, ond nid yw 7% byth yn chwarae y tu allan.
- Byddai 32% yn hoffi cael mwy o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau.
- Mae 21.5% yn meddwl bod rhai neu'r rhan fwyaf o oedolion yn flin ac nad ydynt yn hoffi plant yn chwarae tu allan.
- Mae 93% bob amser neu fel arfer yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae neu gymdeithasu.
- Mae 14% o'r farn nad yw'r lleoedd y maent yn chwarae ynddynt yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud popeth yr hoffent.
- Mae plant a phobl ifanc yn chwarae mewn mwy na 30 o wahanol fathau o leoedd yn y Fro, sy'n dibynnu ar yr hyn sy'n lleol iddynt, lle gallant eu cyrraedd yn ddiogel a lle maent yn teimlo'n ddiogel i chwarae.
- Mae'r amgylchedd naturiol gwych yn y Fro yn gyfrannwr cadarnhaol i blant a theuluoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd chwarae lleol.
- Er bod llawer o blant yn teimlo bod ganddynt fynediad i gyfleoedd chwarae da, mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ble maent yn byw, p'un a ydynt yn cael chwarae yn y mannau y maent yn dymuno a pha fath o chwarae y maent yn ei hoffi.
- Mae'r pethau nad ydynt yn dda am chwarae yn y Fro yn cynnwys offer chwarae anaddas / ag ôl traul arnynt, traffig, cael mynediad i gyfleoedd chwarae lleol a gofodau mewn mannau a nodwyd, cael lle i chwarae pan mae'n bwrw glaw, teimlo'n ddiogel yn chwarae allan gyda'r nos ac adborth nad yw rhai oedolion am i blant chwarae yn y mannau y maent yn chwarae ynddynt.

Gan symud ymlaen, caiff y wybodaeth a gafwyd o'r arolwg ei defnyddio i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol fel rhan o'r broses Asesu Digonolrwydd Chwarae. Fodd bynnag, oherwydd maint y sampl, cydnabyddir bod angen ymgynghori

ymhellach. Cydnabyddir hefyd y gall profiadau chwarae amrywio'n fawr yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys lle mae plentyn yn byw a'r cyfleoedd sydd ar gael yn lleol iddynt. Felly, lle y bo'n bosibl, caiff rhagor o ymgynghori lleol ei wneud er mwyn gallu ystyried camau gweithredu mwy lleol lle bo hynny'n briodol.

Bydd y canlyniadau a'r data o'r arolwg yn cael eu rhannu ag adrannau mewnol y Cyngor a all gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar chwarae, gan gynnwys y tîm Byw'n Iach, y tîm Parciau a Mannau Agored, Cynllunio, yr adran Drafnidiaeth a'r Gwasanaeth Ieuenctid ac unrhyw adran arall berthnasol. Caiff y canlyniadau hefyd eu rhannu'n ehangach i sefydliadau allanol a allai hefyd effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar chwarae neu a allai fod yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol a mudiadau gwirfoddol.



Adroddiad Arolwg 2019

# Dweud eich dweud- **CHWARAE**



**Cyngor Bro Morgannwg**  
Gwasanaethau Gweledig a Thrafnidiaeth

